

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 6 Chwefror 2023
Tabled on 6 February 2023

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) Historic Environment (Wales) Bill

- James Evans** 46
Section 1, page 1, after line 10, insert –
'() the Protection of Wrecks Act 1973 (c. 33);'.
Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 11, mewnosoder –
'() Deddf Gwarchod Llongddrylliadau 1973 (p. 33);'.
- James Evans** 47
Section 1, page 1, after line 15, insert –
'() Part [*new Part inserted by amendment 49 – Protection of sites of historic wrecks*] of this Act makes provision about the protection of sites of historic wrecks, including provision for the Welsh Ministers to designate areas as restricted areas for the purpose of protecting historic wrecks.'.
Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 16, mewnosoder –
'() Mae Rhan [*Rhan newydd wedi'i mewnosod gan welliant 49 – Gwarchod safleoedd llongddrylliadau hanesyddol*] o'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth ynghylch gwarchod safleoedd llongddrylliadau hanesyddol, gan gynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru ddynodi ardaloedd yn ardaloedd cyfyngedig at ddiben gwarchod llongddrylliadau hanesyddol.'.
- James Evans** 48
Section 1, page 1, line 16, leave out 'of this Act'.
Adran 1, tudalen 1, llinell 17, hepgorer 'o'r Ddeddf hon'.
- James Evans** 49
Page 2, after line 10, insert a new section –

'PART []

PROTECTION OF SITES OF HISTORIC WRECKS

[] Protection of sites of historic wrecks

- (1) If the Welsh Ministers are satisfied with respect to any site in the sea that forms part of Wales that –
 - (a) it is, or may prove to be, the site of a vessel lying wrecked on or in the sea bed, and
 - (b) on account of the historical, archaeological or artistic importance of the vessel, or of any objects contained or formerly contained in it which may be lying on the sea bed in or near the wreck, the site ought to be protected from unauthorised interference,they may by regulations designate an area round the site as a restricted area.
- (2) Regulations under this section must identify the site where the vessel lies or formerly lay, or is supposed to lie or have lain, and –
 - (a) the restricted area shall be all within such distance of the site (so identified) as is specified in the regulations, but excluding any area above high water mark of ordinary spring tides, and
 - (b) the distance specified for the purposes of paragraph (a) shall be whatever the Welsh Ministers consider appropriate to ensure protection for the wreck.
- (3) Before making regulations under this section, the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate having regard to the purposes of the regulations; but this consultation may be dispensed with if they are satisfied that the case is one in which regulations must be made as a matter of immediate urgency.
- (4) The Welsh Ministers must revoke regulations made under this section if they consider that there is not, or is no longer, any wreck in the area which requires protection under this section.
- (5) A licence granted by the Welsh Ministers for the purposes of subsection (6) must be in writing and –
 - (a) the Welsh Ministers must in respect of a restricted area grant licences only to persons who appear to them either –
 - (i) to be competent, and properly equipped, to carry out salvage operations in a manner appropriate to the historical, archaeological or artistic importance of any wreck which may be lying in the area and of any objects contained or formerly contained in a wreck, or
 - (ii) to have any other legitimate reason for doing in the area that which can only be done under the authority of a licence;
 - (b) a licence may be granted subject to conditions or restrictions, and may be varied or revoked by the Welsh Ministers at any time after giving not less than one week's notice to the licensee;
 - (c) anything done contrary to any condition or restriction of a licence shall be treated for purposes of subsection (6) as done otherwise than under the authority of the licence.
- (6) Subject to subsection (8), a person commits an offence if, in a restricted area, the person does any of the following things otherwise than under the authority of a licence granted by the Welsh Ministers –

- (a) tampers with, damages or removes any part of a vessel lying wrecked on or in the sea bed, or any object formerly contained in such a vessel,
- (b) carries out diving or salvage operations directed to the exploration of any wreck or to removing objects from it or from the sea bed, or uses equipment constructed or adapted for any purpose of diving or salvage operations, or
- (c) deposits, so as to fall and lie abandoned on the sea bed, anything which, if it were to fall on the site of a wreck (whether it so falls or not), would wholly or partly obliterate the site or obstruct access to it, or damage any part of the wreck,

and also commits an offence if the person causes or permits any of those things to be done by others in a restricted area, otherwise than under the authority of such a licence.

- (7) Where a person is authorised, by a licence of the Welsh Ministers granted under this section, to carry out diving or salvage operations, it is an offence for any other person to obstruct the person, or cause or permit the person to be obstructed, in doing anything which is authorised by the licence; but this is subject to subsection (8).
- (8) Nothing is to be regarded as constituting an offence under this section where it is done by a person –
 - (a) in the course of any action taken by the person for the sole purpose of dealing with an emergency of any description,
 - (b) in exercising, or seeing to the exercise of, functions conferred by or under an enactment on the person or a body for which the person acts, or
 - (c) out of necessity due to stress of weather or navigational hazards.
- (9) A person guilty of an offence under this section is liable on summary conviction to a fine of not more than £5,000, or on conviction on indictment to a fine.
- (10) In this section “the sea” includes any estuary or arm of the sea, and references to the sea bed include any area submerged at high water of ordinary spring tides.
- (11) This section does not bind the Crown.’

Tudalen 2, ar ôl llinell 13, mewnosoder adran newydd –

‘RHAN []

GWARCHOD SAFLEOEDD LLONGDDRYLLIADAU HANESYDDOL

[] Gwarchod safleoedd llongddrylliadau hanesyddol

- (1) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni mewn cysylltiad ag unrhyw safle yn y môr sy'n ffurfio rhan o Gymru –
 - (a) bod y safle hwnnw yn safle llestr sy'n gorwedd wedi ei dryllio ar wely'r môr neu yn y môr, neu y gall y safle hwnnw fod yn safle o'r math hwnnw, a
 - (b) y dylai'r safle, o ganlyniad i bwysigrwydd hanesyddol, archaeolegol neu artistig y llestr, neu unrhyw wrthrychau a gynhwysir ynddi neu a gynhwyswyd ynddi gynt a all fod yn gorwedd ar wely'r môr neu'n agos at y llongddrylliad, gael ei warchod rhag ymyrraeth anawdurdodedig,cânt, drwy reoliadau, ddynodi ardal o amgylch y safle yn ardal gyfyngedig.
- (2) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon nodi'r safle lle y mae'r llestr yn gorwedd neu lle y gorweddai gynt, neu lle y tybir ei bod yn gorwedd neu wedi gorwedd, ac –

- (a) bydd yr ardal gyfyngedig gyfan o fewn y cyfryw bellter i'r safle (a nodir felly) fel a bennir yn y rheoliadau, ond gan eithrio unrhyw ardal uwchlaw marc penllanw'r gorllanw arferol, a
 - (b) bydd y pellter a bennir at ddibenion paragraff (a) yn cyfateb i ba bellter bynnag y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol i sicrhau gwarchodaeth ar gyfer y llongddrylliad.
- (3) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol, gan roi sylw i ddibenion y rheoliadau; ond caniateir hepgor yr ymgynghoriad hwn os ydynt wedi eu bodloni bod yr achos yn un y mae'n rhaid gwneud rheoliadau ar frys yn ei gylch.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru ddirymu rheoliadau a wneir o dan yr adran hon os ydynt yn ystyried nad oes unrhyw longddrylliad yn yr ardal, neu nad oes unrhyw longddrylliad yn yr ardal mwyach, sy'n ei gwneud yn ofynnol ei gwarchod o dan yr adran hon.
- (5) Rhaid i drwydded a roddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion is-adran (6) fod yn ysgrifenedig ac –
- (a) rhaid i Weinidogion Cymru, mewn cysylltiad ag ardal gyfyngedig, roi trwyddedau dim ond i bersonau y mae'n ymddangos iddynt naill ai –
 - (i) eu bod yn gymwys, ac wedi eu paratoi'n briodol, i gyflawni gweithrediadau achub mewn modd sy'n briodol i bwysigrwydd hanesyddol, archaeolegol neu artistig unrhyw longddrylliad a all fod yn gorwedd yn yr ardal ac unrhyw wrthrychau a gynhwysir mewn llongddrylliad neu a gynhwyswyd gynt mewn llongddrylliad, neu
 - (ii) bod ganddynt unrhyw reswm dilys arall dros wneud yr hyn na ellir ond ei wneud yn yr ardal o dan awdurdod trwydded;
 - (b) caniateir rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amodau neu gyfyngiadau, a chaiff Gweinidogion Cymru ei hamrywio neu ei dirymu ar unrhyw adeg ar ôl rhoi o leiaf wythnos o hysbysiad i'r trwyddedai;
 - (c) bydd unrhyw beth a wneir yn groes i unrhyw amod neu gyfyngiad ar drwydded yn cael ei drin at ddibenion is-adran (6) fel pe bai wedi ei wneud ac eithrio o dan awdurdod y drwydded.
- (6) Yn ddarostyngedig i is-adran (8), mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person, mewn ardal gyfyngedig, yn gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau a ganlyn ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddir gan Weinidogion Cymru –
- (a) ymyrryd ag unrhyw ran o lestr sy'n gorwedd wedi ei dryllio ar wely'r môr neu yn y môr, neu unrhyw wrthrych a gynhwyswyd gynt mewn llestr o'r fath, neu ddifrodi neu symud ymaith unrhyw ran o lestr neu unrhyw wrthrych o'r fath,
 - (b) cynnal gweithrediadau deifio neu achub a gyfeirir at archwilio unrhyw longddrylliad neu at dynnu gwrthrychau ohono neu o wely'r môr, neu ddefnyddio offer a adeiladwyd neu a addaswyd at unrhyw ddiben gweithrediadau deifio neu achub, neu
 - (c) dyddodi unrhyw beth, fel ei fod yn disgyn ac yn gorwedd wedi ei adael ar wely'r môr, a fyddai, pe bai'n disgyn ar safle llongddrylliad (pa un a yw'n syrthio felly ai peidio), yn difodi'r safle yn llwyr neu'n rhannol neu'n rhwystro mynediad iddo, neu'n difrodi unrhyw ran o'r llongddrylliad,



ac mae hefyd yn cyflawni trosedd os yw'r person yn peri neu'n caniatáu i unrhyw un neu ragor o'r pethau hynny gael ei wneud neu eu gwneud gan eraill mewn ardal gyfyngedig, ac eithrio o dan awdurdod trwydded o'r fath.

- (7) Pan awdurdodir person, drwy drwydded Gweinidogion Cymru a roddir o dan yr adran hon, i gynnal gweithrediadau deifio neu achub, mae'n drosedd i unrhyw berson arall rwystro'r person, neu beri neu ganiatáu i'r person gael ei rwystro, wrth wneud unrhyw beth a awdurdodir gan y drwydded; ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-adran (8).
- (8) Nid oes dim i'w ystyried yn drosedd o dan yr adran hon pan fo wedi ei wneud gan berson—
 - (a) yng nghwrs unrhyw gamau a gymerwyd gan y person dim ond at ddiben ymdrin ag argyfwng o unrhyw ddisgrifiad,
 - (b) wrth arfer, neu sicrhau yr arferir, swyddogaethau a roddir gan neu o dan ddeddfiad ar y person neu gorff y mae'r person yn gweithredu ar ei gyfer, neu
 - (c) o angenrheidrwydd oherwydd straen y tywydd neu beryglon mordwyol.
- (9) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored, ar euogfarn ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na £5,000, neu ar euogfarn ar dditiad i ddirwy.
- (10) Yn yr adran hon, mae "y môr" yn cynnwys unrhyw aber neu fraich o'r môr, ac mae cyfeiriadau at wely'r môr yn cynnwys unrhyw ardal sydd o dan ddŵr penllanw'r gorllanw arferol.
- (11) Nid yw'r adran hon yn rhwymo'r Goron.'

James Evans

50

Section 207, page 133, after line 7, insert—

'() Subsection (7) does not apply in relation to section [*new section to be inserted by amendment 49 – Protection of sites of historic wrecks*].'

Adran 207, tudalen 133, ar ôl llinell 8, mewnosoder—

'() Nid yw is-adran (7) yn gymwys mewn perthynas ag adran [*adran newydd i'w mewnosod gan welliant 49 – Gwarchod safleoedd llongdrylliadau hanesyddol*].'

James Evans

51

Section 210, page 135, line 26, after '207(7)', insert '(but see section 207(*new subsection to be inserted by amendment 50*))'.

Adran 210, tudalen 136, llinell 9, ar ôl '207(7)', mewnosoder '(ond gweler adran 207(*is-adran newydd i'w mewnosod gan welliant 50*))'.

James Evans

52

Schedule 13, page 171, after line 24, insert—

'*Protection of Wrecks Act 1973 (c. 33)*

[] The Protection of Wrecks Act 1973 is amended as follows.



[] In section 1, before subsection (1), insert –

“(A1) This section does not apply in relation to a vessel the site of which is, or is capable of being, designated in accordance with the provisions of section [*new section to be inserted by amendment 49 – Protection of sites of historic wrecks*] of the Historic Environment (Wales) Act 2023 (Protection of sites of historic wrecks).”

[] In section 3(4), after “proceedings for such an offence” insert “or an offence under section (*new section to be inserted by amendment 49 – Protection of sites of historic wrecks*) of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.

Atodlen 13, tudalen 171, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

‘Deddf Gwarchod Llongdrylliadau 1973 (p. 33)

[] Diwygir Deddf Gwarchod Llongdrylliadau 1973 fel a ganlyn.

[] Yn adran 1, cyn is-adran (1) mewnosoder –

“(A1) This section does not apply in relation to a vessel the site of which is, or is capable of being, designated in accordance with the provisions of section [*adran newydd i'w mewnosod gan welliant 49 – Gwarchod safleoedd llongdrylliadau hanesyddol*] of the Historic Environment (Wales) Act 2023 (Protection of sites of historic wrecks).”

[] Yn adran 3(4), ar ôl “proceedings for such an offence” mewnosoder “or an offence under section (*adran newydd i'w mewnosod gan welliant 49 – Gwarchod safleoedd llongdrylliadau hanesyddol*) of the Historic Environment (Wales) Act 2023”.